| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad** | **13 Medi 2011** |
| **Pwnc** | **EITHRIAD I'R RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU MEWN PERTHYNAS Â GWAITH Y BWRIEDIR EI WNEUD AR Y SENOTAFF YNG NGHAERGYBI** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Jim Woodcock**<br>**Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Nathan Blanchard**<br>**Swyddog Prosiect Menter Treftadaeth Tirlun (x2047)** |
| **Natur yr adroddiad a rheswm dros adrodd**<br><br>Adrodd ar y rhesymau am newid y gweithdrefnau contract fel eitem frys. | |

Ar 25 Gorffennaf, cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr yn gofyn am newid y rheolau gweithdrefn contract mewn perthynas â hysbysebu'r contract a hynny oherwydd natur arbenigol y gwaith cadwraeth y bwriedir ei wneud ar y Senotaff yng Nghaergybi.

Yn unol â rheol 4.9.3.5.3 (v) y Cyfansoddiad, gofynnwyd am ganiatâd y Bwrdd i newid rheolau 4.9.3.3 a 4.9.4.1 i 4.9.4.2.3 y Rheolau Gweithdrefn Contractau fel na fyddai'n rhaid rhoi hysbyseb gyhoeddus yn y wasg nac ar wefannau ar gyfer contract a fyddai'n werth mwy na £30,000.

Yn unol â pharagraff 4.5.16.10 cyfansoddiad y Cyngor, rhaid adrodd ar benderfyniadau brys i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor gan nodi'r rhesymau am y brys.

Y rhesymau am ddelio gyda'r adroddiad fel mater brys yw bod angen gwario ar y Senotaff yng Nghaergybi i roi sylw i ddifrod a dirywiad ac yn yr adroddiad hwn, gofynnir am eithriad i'r rheolau gweithdrefn contract ar gyfer cael y sgiliau arbenigol sydd raid wrthynt o Ogledd Cymru.

Mae swyddogion yn bwriadu gwneud gwaith arbenigol iawn, gan gynnwys glanhau a thrwsio'r gwaith cerrig a'r gwaith efydd, gan gynnwys adfer bolardiau a gollwyd o amgylch y Senotaff yng Nghaergybi gan ddefnyddio deunyddiau a dulliau anghyffredin a fyddai'n cael sylw gan gontractwyr adeiladu cyffredinol.

Wedi gweithio gyda'r Penseiri adeiladau hanesyddol a benodwyd, mae'n ymddangos yn ôl yr ymchwiliadau a wnaed ganddynt hwy a gennym ni, mai dim ond cwmnïau arbenigol iawn fedr wneud gwaith castio efydd o'r math hwn. Nid yw unrhyw un o'r cwmnïau hyn wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru ac mae'r cwmnïau eraill yng Nghymru yn canolbwyntio ar waith castio celfyddydol yn hytrach na phensaernïol. Yn yr un modd, y system sy'n cael ei ffafrio ar gyfer glanhau'r gwaith cerrig yw system ryddfraint. Cysylltwyd â'r holl gwmnïau yng Ngogledd Cymru sy'n dal rhyddfraint a'r rhain yw'r contractwyr y byddem yn dymuno

cysylltu â nhw.  Amcangyfrifir bod gwerth y gwaith arbenigol hwn o gwmpas 80%+ o gost arfaethedig y contract.

Rydym yn teimlo bod y gwaith hwn ar adeilad rhestredig Graddfa II mor arbenigol fel ei fod yn annhebygol iawn y byddai'n cael ei wneud gan gontractwyr ar yr Ynys, er gwaethaf ein hymdrechion ni ac ymdrechion y Penseiri i gael hyd i gwmnïau gyda digon o brofiad arbenigol yn y maes cadwraeth (fel sy'n ofynnol gan y Gronfa Loteri Treftadaeth fel ein partner cyllido), heb arwain at oedi sylweddol yn y rhaglen a gweithredu gwael a fyddai wedyn yn dal y prosiect yn ôl – mae amseru'r prosiect yn fater sensitif iawn oherwydd yr angen i gwblhau'r gwaith cyn Sul y Cofio eleni.

Wedi cael cymeradwyaeth y Comisiynwyr, gwahoddwyd a dychwelwyd tendrau.  Er gwaethaf yr amcangyfrifon cynharach, roedd y tendr isaf a dderbyniwyd a oedd hefyd o safon ddigonol, yn is na £30,000 (heb TAW).

| **Argymhelliad** |
| --- |
| Nodi'r rhesymau uchod am eithriad i reol 4.9.3.3 a 4.9.4.1 i 4.9.4.2.3 o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyfansoddiad. |